Adroddiad i'r:	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych
Dyddiad y Cyfarfod:	30 Tachwedd, 2022
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Y Cyng. Jason McLellan, Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych a chadeirydd BGC
Awduron yr Adroddiad:	Iolo McGregor, Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad, Cyngor Sir Ddinbych
Teitl:	Cynllun Lles BGC Conwy a Sir Ddinbych, 2023 i 2028

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn cyflwyno Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2023 i 2028.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1 Cael adborth o'r ymgynghoriad ar y Cynllun Lles drafft 2023 i 2028 a cheisio, cyn unrhyw addasiadau, cymeradwyaeth o'r fersiwn derfynol i alluogi sefydliadau partner i roi eu cadarnhad rhwng Rhagfyr a Mawrth, cyn mabwysiadu gan y BGC ym Mawrth 23.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod aelodau'n ystyried yr adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad (atodiad 3 i 5) a chynnwys yr adroddiad drafft (atodiad 1) a'r Asesiad o'r Effaith ar Les (atodiad 2); a

3.2 Cyn unrhyw addasiadau sy'n codi o'r drafodaeth, cymeradwyo'r Cynllun Lles drafft i'w gadarnhau gan sefydliadau unigol rhwng nawr a Mawrth 23.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg. This document is available in Welsh.

3.3 Cytuno bod y Cynllun Lles drafft ar gael ar wefan y BGC ar gyfer ‘gwiriad synnwyr’ terfynol a gwahodd budd-ddeiliad i gysylltu os ydynt eisiau cymryd rhan yn, neu roi adborth ar unrhyw agwedd ar y Cynllun.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod gofyniad statudol ar bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gynhyrchu Cynllun Lles Lleol ar gyfer eu hardal. Rhaid i’r Cynllun Lles Lleol nodi sut mae’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn bwriadu gwella elfennau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a lles diwylliannol ei ardal, drwy osod amcanion lleol a fydd yn gwneud y gorau o’r cyfraniad a wneir gan y bwrdd i gyflawni nodau lles yn ei ardal. Rhaid cyhoeddi’r Cynllun Lles Lleol cyn pen blwyddyn ar ôl cyhoeddi'r Asesiad Lles. Felly, rydym yn gweithio tuag at ddydiad cau arfaethedig o Fawrth / Ebrill 2023 ar gyfer cyhoeddi’r Cynllun Lles Lleol.

4.2 Gydag arweiniad yr Asesiad Lles, mae’r BGC wedi cynnal nifer o drafodaethau blaenoriaethu (yn Ionawr, Mawrth a Mai) gyda chefnogaeth Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, i ystyried pa feysydd o bryder fyddai’n elwa fwyaf o ymyrraeth y BGC. Roedd y trafodaethau hyn yn ceisio adnabod achosion y problemau a ganfuwyd yn yr asesiad, gan ystyried eu perthynas â’i gilydd a lefel y dylanwad neu reolaeth sydd gan y BGC. Yn olaf, cytunwyd y dylid rhoi un prif thema ymlaen sy’n ceisio lliniaru amddifadedd ac anghydraddoldeb.

4.3 Bu i’r BGC gwrdd eto ym mis Gorffennaf a chytuno ar amlinelliad Cynllun sy’n ceisio gwneud Conwy a Sir Ddinbych yn le mwy cyfartal gyda llai o amddifadedd. Yna cyhoeddwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar 17 Awst, a bydd yn para tan 9 Tachwedd. Ar yr un pryd rydym wedi cychwyn y cyfnod o 14 wythnos ble mae’n rhaid i Gomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ddarparu adborth ar ein cynllun drafft, ac mae’r sgyrsiau hynny wedi bod yn digwydd rhwng swyddogion. Mae’r ymgynghoriad cyhoeddus ar wefan y BGC.

4.4 Mae gwaith wedi bod yn digwydd dros y tri mis diwethaf i ddatblygu’r Cynllun yn seiliedig ar yr adborth a gafwyd a’r wybodaeth sydd wedi dod â ni at y pwynt hwn. Rydym wedi cyfarfod ddwywaith gyda chynrychiolydd Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, i drafod eu hadborth ar y Cynllun, mae’r fersiwn derfynol ohono yn atodiad 4. Mae swyddogion cefnogi BGC hefyd wedi cwrdd ddwywaith i

ddatblygu'r Cynllun a thrafod adborth o'r ymgynghoriad (crynodeb yn atodiad 5), gan gynnwys ymateb manwl gan bartneriaid yng Nghyfoeth Naturiol Cymru (atodiad 3). Y drafft a gyflwynir yn atodiad 1 yw penllanw'r gwaith hwn. Teimlir ei fod yn ddrafft cryf sy'n cynrychioli buddiannau partneriaid yn dda a gobeithio yn dal hanfod beth mae'r BGC eisiau ei gyflawni.

4.5 Cyn unrhyw addasiadau ac yn dilyn cymeradwyaeth y BGC o'r drafft ar 30 Tachwedd, bydd angen i sefydliadau aelodau unigol gadarnhau'r Cynllun yn ystod y gaeaf trwy eu sianeli cymeradwyo a ddewiswyd. Rydym yn sicr fod y trefniadau ar gyfer hyn yn eu lle, a fydd yna'n galluogi'r BGC i fabwysiadu eu Cynllun Lles yn ffurfiol ym Mawrth 2023.

4.6 Yn y cyfamser, cynigir ein bod unwaith eto yn rhoi'r Cynllun Lles drafft ar wefan y BGC i wahodd budd-ddeiliad i gysylltu â ni os ydynt eisiau cymryd rhan yn, neu ddarparu adborth ar unrhyw agwedd ar ei gyflwyno. Byddai hefyd yn ymarfer da yn ystod y cyfnod hwn i ddangos beth yw'r sefyllfa yn dilyn y rownd ddiweddaraf o ymgynghori, ac i ddangos sut rydym wedi gwrando ar yr adborth a gafwyd hyd yma.

5. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

5.1 Mae'r Cynllun Lles yn seiliedig ar y dystiolaeth o'r Asesiad Lles, sydd wedi bod yn destun ymgysylltiad cyhoeddus trwy gydol mis Chwefror a Mawrth 2022. Yn ogystal â hyn, fe'i cyflwynwyd i Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Conwy a Sir Ddinbych yn Chwefror. Mae dau weithdy a chyfarfod cyhoeddus o'r BGC wedi trafod canfyddiadau'r asesiad a blaenoriaethu themâu. Cefnogwyd y rhain gan Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru.

5.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynllun drafft rhwng 17 Awst a 9 Tachwedd 2022. Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliwyd trafodaethau gyda Swyddfa Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn cefnogi swyddogion ac aelodau'r BGC a'r cydbwyllgor Craffu.

6. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ein Hamcanion Lles?

6.1 Bydd Cynllun Lles 2023 i 2028 yn gosod amcanion lles BGC Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer y 5 mlynedd nesaf.

7. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

7.1 Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn codi o ganlyniad i'r Cynllun neu'r adroddiad hwn, er wrth ddatblygu rhywfaint o'i gamau, bydd y BGC angen asesu'r gofynion ar gyfer adnoddau a chapasiti.

8. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

8.1 Mae risg y bydd gan y BGC ddiffyg dylanwad neu reolaeth o fewn yr amcanion a ddewisant. Bydd y risg hwn yn cael ei liniaru gan y BGC yn mabwysiadu dull arweinyddiaeth gan fod cydnabyddiaeth fod gan y BGC adnoddau cyfyngedig.

8.2. Mae risg fod blaenoriaethau'r BGC yn dyblygu'r gwaith sy'n digwydd mewn sefydliadau eraill. Felly mae'n bwysig gweithio'n agos gyda phartneriaid a budd-ddeiliaid i adnabod ble gall swyddogaeth arweinyddiaeth y BGC ychwanegu'r gwerth mwyaf.

8.3. Mae risg bod adborth gan y comisiynydd, partneriaid neu'r cyhoedd yn rhoi pwysau ar Gynllun Lles y BGC i gymryd mwy na'r hyn all ei gyflawni'n rhesymol.

8.4 Mae risg na fydd y Cynllun Lles yn barod i'w gymeradwyo gan y BGC ym Mawrth 2023, gan golli'r dyddiad cau statudol. Yn seiliedig ar gynnydd presennol, mae hyn yn annhebygol.

9. Pŵer i wneud y penderfyniad

9.1 Pennod 2, adran 39, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

9.2 Cylch Gorchwyl Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.